swyddfa'r
dyfarnwr
annibynnol

# Cynllun Gweithredu

2026

oiahe.org.uk

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagarweiniad | 3 |
| Ein hamcanion ar gyfer 2026 | 4 |
| Ein cynllun ar gyfer 2026: yr hyn y byddwn ni'n ei wneud a pham mae'n bwysig | 5 |
| Ein strategaeth, amcanion a blaenoriaethau wedi'u hegluro | 6 |
| Blaenoriaeth 1: Adolygu ein proses ar gyfer gwaith ar achosion yn sylfaenol er mwyn sicrhau bod defnyddwyr ein gwasanaeth yn ganologi'r broses honno, ei bod mor effeithlon â phosibl a'i bod yn canolbwyntio ar ddatrysiad effeithiol. | 7 |
| Blaenoriaeth 2: Cynyddu effeithiolrwydd ein dylanwad i gefnogi ein hamcanion. | 10 |
| Blaenoriaeth 3: Gwella ansawdd ein tystiolaeth, yn ddata a mewnwelediad, i wella ein perfformiad sefydliadol ac effeithiolrwydd o ran dylanwadu. | 15 |
| Blaenoriaeth 4: Cynyddu effeithiolrwydd y sefydliad, adeiladu ar ein hymagwedd un-sefydliad a'i chryfhau, gan sicrhau y gallwn ymateb i ofynion y blaenoriaethau eraill, a chreu amgylchedd lle gall ein holl bobl ffynnu. | 17 |

# Rhagarweiniad

Mae myfyrwyr a darparwyr addysg uwch yn parhau i wynebu heriau sylweddol ac esblygol; o bwysau ariannol, i gostau byw cynyddol ac o ymateb i ddyletswyddau a disgwyliadau i gynnal llywodraethiant da, mae yna bwysau ac ansicrwydd eang ar draws y sector. Yn y cyd-destun hwn yr ydym yn nodi ein cynlluniau a'n huchelgeisiau ar gyfer 2026 fel cynllun Ombwdsmon, gan gynnig cefnogaeth i fyfyrwyr addysg uwch tra'n ailddatgan ein hymrwymiad i degwch, annibyniaeth, a gwasanaethu budd y cyhoedd.

Ein pwrpas elusennol yw hyrwyddo addysg er budd y cyhoedd trwy adolygiad annibynnol o gwynion myfyrwyr yng Nghymru a Lloegr, a thrwy ddefnyddio'r hyn a ddysgwn o'r cwynion hynny i hyrwyddo gwelliant mewn polisïau ac arferion ar draws y sector. Mae'r pwrpas deuol hwn yn parhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn ac yn sail i'n cynllun ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Yn 2025, lansiwyd ein strategaeth newydd sy'n canolbwyntio ar ddau amcan sefydliadol hirdymor a phedair blaenoriaeth strategol. Trwy gydol 2026, ein ffocws yw parhau i wella profiad myfyrwyr trwy ddarparu proses deg, hygyrch ac annibynnol ar gyfer datrys cwynion, a thrwy ddefnyddio'r mewnwelediadau a gawn i ddylanwadu ar newid cadarnhaol o fewn tirwedd addysg uwch sy'n newid yn gyflym.

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn nodi'r hyn y byddwn yn ei wneud yn ystod 2026 i fwrw ymlaen â phob agwedd ar ein strategaeth. Mae'n amlinellu'r gweithgaredd, y gwelliannau a'r ymrwymiadau penodol a fydd yn arwain ein gwaith yn ystod y flwyddyn, ac yn disgrifio'r hyn yr ydym yn bwriadu ei gyflawni erbyn i ni gyrraedd 2027. Ein huchelgais yw parhau i gryfhau ein gwasanaeth, gan gynorthwyo darparwyr i wella eu prosesau eu hunain, a chyfrannu at system addysg uwch fwy effeithiol a theg, sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr.

# Ein hamcanion ar gyfer 2026

I ni, bydd 2026 yn flwyddyn hollbwysig. Ar ôl dechrau ar ein cynllun strategol gydag elfen helaeth o adolygu, bydd 2026 yn gyfle i ganolbwyntio ar gyflawni'r newid a ragwelwyd gennym wrth ddatblygu a mireinio ein cynllunio. Rydym yn parhau i fod wedi'n gwreiddio mewn pedair blaenoriaeth gydgysylltiedig ond gwahanol er mwyn ein galluogi i ddysgu o gwynion a darparu datrysiad cynnar.

Felly mae ein cynllun wedi'i gynnwys o fewn y pedair blaenoriaeth hyn. Y rhain yw:

1. Adolygu ein proses ar gyfer gwaith ar achosion yn sylfaenol er mwyn sicrhau bod defnyddwyr ein gwasanaeth yn ganolog i'r broses honno, ei bod mor effeithlon â phosibl a'i bod yn canolbwyntio ar ddatrysiad effeithiol.
2. Cynyddu effeithiolrwydd ein dylanwadu i gefnogi ein hamcanion;
3. Gwella ansawdd ein tystiolaeth, o ran data a mewnwelediad, er mwyn gwella perfformiad sefydliadol ac effeithiolrwydd dylanwadu;
4. Cynyddu effeithiolrwydd y sefydliad, adeiladu ar ein hymagwedd un-sefydliad a'i chryfhau, gan sicrhau y gallwn ymateb i ofynion y blaenoriaethau eraill, a chreu amgylchedd lle gall ein holl bobl ffynnu.

Erbyn diwedd 2026, byddwn wedi gwneud gwahaniaeth gweladwy i'r ffordd rydym yn gweithio. Byddwn yn parhau i weithredu amrywiaeth o strategaethau, rhaglenni a phrosiectau sy'n ein galluogi i weithredu mewn ffyrdd cynyddol effeithlon, hyblyg ac unigryw, gan barhau i wasanaethu ein rhanddeiliaid, darparwyr, partneriaid, ac yn bwysicaf oll, myfyrwyr.

Rydym yn croesawu eich adborth, a gallwch ddysgu mwy am ein gwaith trwy:

www.oiahe.org.uk

Instagram

enquiries@oiahe.org.uk

LinkedIn

# Ein cynllun ar gyfer 2026: yr hyn y byddwn ni'n ei wneud a pham mae'n bwysig

Mae'r cynlluniau a osodwn ar gyfer 2026 yn fwy na rhestr o weithgareddau. Maent yn disgrifio sut y bydd Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (SDA) yn parhau i chwarae rhan hanfodol a blaengar wrth sefydlogi system addysg uwch sy'n wynebu pwysau digynsail. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn bwysig oherwydd bod yr heriau sydd o'n blaenau, costau cynyddol, anghenion myfyrwyr yn mynd yn fwyfwy cymhleth, ansicrwydd strwythurol i ddarparwyr, ynghyd â disgwyliadau uwch o degwch, yn galw am system o ddatrysiadau ac iawndal sy'n hygyrch, yn annibynnol ac wedi'i seilio ar brofiad go iawn.

Rydym yn gweithio ar y groesffordd rhwng cyfiawnder unigol a dysgu ar draws y sector. Mae pob cwyn rydyn ni'n ei hadolygu yn gyfle i unioni rhywbeth i fyfyriwr a allai fod wedi disbyddu pob opsiwn arall. Gyda'i gilydd, mae'r cwynion hyn yn ffurfio cronfa o fewnwelediadau sy'n helpu darparwyr i wella eu prosesau eu hunain, yn cryfhau atebolrwydd ac yn cynorthwyo â deilliannau gwell i fyfyrwyr y dyfodol. Mewn tirwedd lle mae hyder mewn sefydliadau a systemau yn cael ei gwestiynu, mae annibyniaeth, didueddrwydd ac arbenigedd SDA yn bwysicach nag erioed.

Mae'r blaenoriaethau yn y cynllun hwn yn dangos sut y byddwn yn parhau i esblygu er mwyn cyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Trwy foderneiddio ein prosesau o ymdrin â gwaith ar achosion, cryfhau ein dylanwad ymhellach, gwella ansawdd ein data a'n mewnwelediad, yn ogystal â buddsoddi yn ein pobl, ein diwylliant a'n systemau, rydym yn sicrhau bod y sefydliad yn barod i ymdopi â chymhlethdod a graddfa'r blynyddoedd i ddod. Nid yn unig yr ydym yn ymateb i newid, rydym yn helpu i lunio'r amgylchedd lle mae tegwch i fyfyrwyr yn cael ei ddiogelu a'i wella.

Mae ein rôl yn y fframwaith rheoleiddio yn parhau i fod yn un arwyddocaol. Mae darparwyr, llywodraethau, rheoleiddwyr a myfyrwyr yn dibynnu arnom ni, nid yn unig i ddatrys cwynion, ond hefyd i dynnu sylw at risgiau sy'n dod i'r amlwg, arwain arfer da, a siarad yn annibynnol ar faterion sy'n effeithio ar brofiad myfyrwyr ar lefel y system. Wrth i ffiniau addysg uwch a thrydyddol barhau i symud, gan gynnwys ehangu ein cylch gwaith yng Nghymru, bydd ein gallu i ddarparu eglurder, mewnwelediad a datrysiadau teg yn parhau i fod yn hanfodol.

Mae'r ymrwymiadau yn y Cynllun Gweithredu hwn yn bwysig oherwydd eu bod yn cryfhau sylfeini system addysg uwch decach. Maen nhw'n sicrhau y gall myfyrwyr sydd ein hangen ni gysylltu â ni; y gall darparwyr ddysgu o'r hyn a welwn; a bod gan lunwyr polisi fynediad at dystiolaeth sy'n seiliedig ar realiti bywyd myfyrwyr ar draws y sector.

Yn 2026 byddwn yn adeiladu ar ein cryfderau wrth groesawu'r newid sydd ei angen er mwyn parhau i fod yn effeithiol, yn ddibynadwy ac yn ddylanwadol. Mae pwrpas SDA, sef hyrwyddo addysg er budd y cyhoedd trwy adolygiad annibynnol o gwynion myfyrwyr yng Nghymru a Lloegr, a thrwy ddefnyddio'r hyn a ddysgwn o'r cwynion hynny i hyrwyddo gwelliant mewn polisïau ac arferion ar draws y sector, yn parhau i fod nid yn unig yn berthnasol, ond yn anhepgor.

Mae'r cynllun hwn yn ein rhoi mewn sefyllfa dda i gyflawni'r diben hwnnw â mwy fyth o hyder, eglurder a dylanwad yn y flwyddyn i ddod.

# Ein strategaeth, amcanion a blaenoriaethau wedi'u hegluro

Mae ein strategaeth gyffredinol yn nodi amcanion ar gyfer SDA. Ein hamcan cyntaf yw y bydd pobl yn ymddiried ynom i wneud penderfyniadau teg, i drin pawb yn gyfartal, i wella profiadau myfyrwyr, i wrando a gweithredu'n annibynnol, ac i fod yn rhesymol. Yn gysylltiedig â hyn mae'r gobaith y byddwn yn cael ein gwerthfawrogi am ein harbenigedd, ein huniondeb a'n heffeithlonrwydd.

Ein hail amcan yw creu effaith fel bod y sector yn well wrth ymdrin â chwynion a defnyddio'r hyn a ddysgwyd o gwynion a phrofiad ehangach i sicrhau gwelliannau.

Yn deillio o hyn rydym wedi blaenoriaethu pedwar maes gwaith:

1. Gwaith ar achosion
2. Ymgysylltiad â rhanddeiliaid
3. Cryfhau ein sylfaen dystiolaeth
4. Datblygiad sefydliadol a diwylliannol

Mae adolygiad o'r gwaith a wnaethom mewn perthynas â'n blaenoriaethau wedi'i nodi yn y tudalennau canlynol.

## Blaenoriaeth 1:

**Adolygu ein proses ar gyfer gwaith ar achosion yn sylfaenol er mwyn sicrhau bod defnyddwyr ein gwasanaeth yn ganolog i'r broses honno, ei bod mor effeithlon â phosibl a'i bod yn canolbwyntio ar ddatrysiad effeithiol.**

Yn 2025 gwelsom dwf parhaus yn nifer a chymhlethdod cwynion, gan dderbyn y nifer uchaf o gwynion yn ein hanes. Mae anghenion a disgwyliadau myfyrwyr yn newid yn gyflym, wedi'u dylanwadu gan bwysau ariannol, trawsnewid digidol, ac amrywioldeb cynyddol corff y myfyrwyr. Ar yr un pryd, mae'r sector addysg uwch yn gorfod ymdopi ag ansicrwydd sylweddol a newid strwythurol. O fewn y cyd-destun hwn, nid yw ein rôl fel corff annibynnol, diduedd, sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, erioed wedi bod yn bwysicach.

Wrth i ni edrych ymlaen at 2026, rydym yn gwybod bod yn rhaid i ni barhau i gynnig prosesau sy'n hygyrch, yn hawdd eu llywio, ac yn ymatebol i'r realiti y mae myfyrwyr a darparwyr yn ei wynebu. Mae hyn yn golygu sicrhau bod ein gwasanaeth yn ddigon hyblyg i ddiwallu gwahanol anghenion, yn ogystal â chynnal yr eglurder, y cysondeb a'r annibyniaeth sy'n sail i ymddiriedaeth yn ein gwaith. Byddwn yn parhau i foderneiddio a gwella ein prosesau fel y gall pawb sydd angen ein gwasanaeth ei ddeall a'i ddefnyddio'n hyderus.

Mae ymddiriedaeth yn ein penderfyniadau yn parhau i fod yn hollbwysig. Yn 2026, byddwn yn cynnal ffocws cryf ar gyflawni canlyniadau teg, yn seiliedig ar benderfyniadau cadarn, dulliau cymesur, a dealltwriaeth glir o'r hyn y gellir ei gyflawni yng nghyd-destun pob cwyn. Byddwn yn parhau i wneud defnydd ystyriol o dechnegau datrys anghydfod cynnar lle mae'r rhain yn cynnig y llwybr gorau a chyflymaf at ddatrysiad teg, gan ddefnyddio adolygiadau Ombwdsmon mwy traddodiadol lle mae'r rhain yn angenrheidiol i fynd i'r afael â'r materion yn llawn ac yn effeithiol.

Mae'r hyn a ddysgwn ar gyfer y sector yn parhau i gael ei ysgogi gan ein data a'n mewnwelediadau unigryw, sy'n rhoi golwg system-gyfan ar brofiadau myfyrwyr ac arfer darparwyr. Yn 2026, byddwn yn adeiladu ar gryfderau ein Fframwaith Arfer Da a'n gwaith allgymorth i ddarparu cefnogaeth ymarferol, wedi'i thargedu i ddarparwyr wrth iddynt lywio amgylchedd cynyddol gymhleth. Byddwn yn parhau i helpu â nodi lle nad yw prosesau cwynion mewnol yn gweithio fel y dylent a chynnig cymorth i ddarparwyr ddatblygu dulliau gweithredu mwy effeithiol, tryloyw ac amserol.

Mae hyrwyddo diwylliant cadarnhaol ac adeiladol o amgylch cwynion yn parhau i fod yn rhan graidd o'n cenhadaeth. Yn 2026, byddwn yn parhau i hyrwyddo gwerth cwynion fel cyfleoedd ar gyfer dysgu, gan helpu'r sector i weld nid yn unig ble mae pethau'n mynd o chwith, ond sut y gellir cryfhau systemau a phrosesau i wella profiad y myfyrwyr yn ehangach.

# Mae ein cynlluniau i barhau â chyflawni yn erbyn Blaenoriaeth 1 yn cynnwys:

| Beth rydym yn bwriadu ei wneud | Sut olwg fydd ar hyn |
|---|---|
| **Byddwn yn cynnal adolygiad o'r broses ar gyfer ymdrin â gwaith ar achosion.** | • Creu a chadarnhau rhestr fanwl o ofynion, gan gynnwys data.<br>• Nodi ystod o gyfleoedd technegol ac ar gyfer cyfathrebu cyn datblygu a phrofi cynnig ar gyfer proses yn fewnol.<br>• Ymgynghori ar y broses newydd arfaethedig gyda myfyrwyr, cyrff cynrychioli myfyrwyr, a darparwyr. |
| **Byddwn yn cynnal adolygiad o'r Cynllun.** | • Adolygu strwythur a gofynion y Cynllun.<br>• Ymgynghori (yn fewnol ac yn allanol) ar y newidiadau arfaethedig i reolau'r Cynllun.<br>• Adolygu canllawiau, hyfforddiant mewnol, ynghyd â datblygiad ar gyfer myfyrwyr, cyrff cynrychioli myfyrwyr, darparwyr, a'n cydweithwyr ein hunain. |
| **Byddwn yn darparu gwasanaeth amserol ac ymatebol, gan roi gwybod i fyfyrwyr mor fuan â phosibl a allwn roi sylw i'w cwyn, a datrys cwynion cyn gynted ag y gallwn.** | • Bodloni ein dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer amseroldeb ein proses trin achosion:<br>    • Ymateb i 95% o ymholiadau o fewn dau ddiwrnod gwaith.<br>    • Gwneud 90% o benderfyniadau ynghylch cymhwysedd (neu ofyn am ragor o wybodaeth) o fewn 10 diwrnod gwaith.<br>    • Cau 75% o achosion o fewn chwe mis i'w derbyn. |
| **Byddwn yn defnyddio ymagwedd gymesur sy'n seiliedig ar risg, gan adeiladu ar hyblygrwydd ac effeithlonrwydd ein gwasanaeth.** | • Datblygu dull SDA ar gyfer datrys cwynion yn gynnar ac yn gymesur - lle bydd hynny'n rhoi'r cyfle gorau i ddatrys ac unioni'r broblem.<br>• Parhau â gwaith i hyrwyddo manteision i'r naill ochr a'r llall o setlo cwynion.<br>• Cynnal adolygiadau o'n prosesau craidd i sicrhau cynaladwyedd ein gwasanaeth ac i wella profiad defnyddwyr y gwasanaeth. |

| Beth rydym yn bwriadu ei wneud | Sut olwg fydd ar hyn |
|---|---|
| **Byddwn yn datblygu ein prosesau a'n systemau ymhellach i ddarparu gwasanaeth hygyrch a chynhwysol i fyfyrwyr a darparwyr.** | • Cynnal ymchwil i lywio arfer gorau wrth ddatblygu ein systemau a'n prosesau ymhellach ar gyfer hygyrchedd a chynhwysiant.<br>• Ceisio barn myfyrwyr, eu cynrychiolwyr, a'n cysylltiadau mewn darparwyr i ffurfio sail i'n cynlluniau ar gyfer datblygu systemau.<br>• Gweithredu ein strategaeth Gyfathrebu newydd. |
| **Byddwn yn datblygu ein mecanweithiau ar gyfer gwrando ar yr hyn y mae myfyrwyr yn ei ddweud wrthym am eu profiad o'n gwasanaeth, ac yn defnyddio hyn i wella'r hyn a wnawn ymhellach.** | • Adolygu effeithiolrwydd ein prosesau ar gyfer cael adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth, gan gynnwys cwynion am y gwasanaeth hwnnw.<br>• Datblygu ein systemau ar gyfer nodi cyfleoedd dysgu o gwynion am ein gwasanaeth a heriau i'n penderfyniadau, gan gynnwys trwy gyfluniadau technolegol newydd. |
| **Byddwn yn datblygu fframwaith sicrhau ansawdd newydd.** | • Gwneud ein gwasanaeth yn well trwy gefnogi dysgu a datblygiad ein cydweithwyr.<br>• Sicrhau bod dysgu o'n systemau sicrhau ansawdd diwygiedig yn bwydo ymlaen i'n gwaith parhaus ar achosion.<br>• Datblygu fframwaith newydd ochr-yn-ochr ag ymgorffori dulliau technegol a gofynion adrodd newydd, yn ogystal ag eglurder mewn mecanweithiau goruchwylio. |
| **Byddwn yn adeiladu ar ein gallu i roi adborth ar ddysgu o gwynion er mwyn hyrwyddo arfer da.** | • Datblygu ein strategaeth i ganolbwyntio ar gyflawni effaith i fyfyrwyr a'r sector ehangach trwy ystod o ddulliau gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid, cyfathrebu uniongyrchol â myfyrwyr, ac astudiaethau achos ehangach.<br>• Gwella ein systemau ar gyfer canfod, cofnodi ac adrodd ar y ffactorau sy'n arwain at gwynion. |
| **Byddwn yn datblygu ein dull o ystyried sut olwg sydd ar ddatrysiad cynnar o ran proses.** | • Datblygu datrysiadau technegol newydd sy'n caniatáu i fyfyrwyr "hunan-arwain" eu hymholiadau cyn cyflwyno ceisiadau ffurfiol.<br>• Datblygu gwell gwybodaeth am fanteision datrysiad cynnar. (i ddarparwyr a myfyrwyr) |

## Blaenoriaeth 2:

# Cynyddu effeithiolrwydd ein dylanwad i gefnogi ein hamcanion.

Yn 2026 byddwn yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn 2025 i gryfhau ymhellach ein gwaith arfer da ac allgymorth, ynghyd â'n dylanwad o fewn y sector, gan sicrhau bod gwaith o'r fath yn parhau i fod yn ymatebol, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn alinio â blaenoriaethau ein sefydliad.

Byddwn yn parhau i werthuso effeithiolrwydd a chyrhaeddiad ein gweithgareddau arfer da, gan ddefnyddio data, adborth a chanfyddiadau gwerthuso i ganolbwyntio ein hadnoddau ar ddulliau sy'n gwella tegwch i fyfyrwyr a'r hyn y mae darparwyr yn ei ddysgu. Ein nod yw bod ein canllawiau, ein mewnwelediadau a'n gwaith allgymorth yn cyrraedd pawb a all elwa ohonynt; hynny ar ffurf sy'n hygyrch, yn ymarferol ac yn gymesur ar gyfer gwahanol fathau o ddarparwyr a myfyrwyr.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n agos â materion cyfoes sy'n effeithio ar fyfyrwyr a darparwyr, gan gynnwys y pwysau ariannol parhaus sy'n effeithio ar yr holl sector, heriau costau byw i fyfyrwyr, a'r pwysau gweithredol y mae undebau myfyrwyr a mudiadau cynghori yn eu hwynebu. Trwy wrando'n ofalus, ymgysylltu'n gydweithredol, a dadansoddi'n barhaus y cwynion a welwn, byddwn yn diweddaru ac yn datblygu ein canllawiau arfer da i adlewyrchu risgiau sy'n dod i'r amlwg, yr hyn y gallwn ei ddysgu, ac anghenion y sector.

Fel sefydliad sy'n cael ei gydnabod am ein hannibyniaeth, ein data a'n harbenigedd, byddwn yn parhau i chwarae rhan adeiladol yn y dirwedd reoleiddio ehangach. Yn 2026 byddwn yn datblygu ein gwaith gyda llywodraethau, cyrff statudol, asiantaethau sector, a rhwydweithiau, gan gynnal y cydbwysedd rhwng ein hannibyniaeth a'r gyd-ddibyniaeth sy'n ofynnol ar gyfer system effeithiol o amddiffyniad a datrysiadau i fyfyrwyr. Bydd ein data a'n mewnwelediadau yn parhau i ffurfio sail i'r ddadl ar faterion polisi sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys y rhai sy'n effeithio ar ymgysylltiad myfyrwyr, a sefydlogrwydd ariannol darparwyr.

Byddwn yn defnyddio ein safle a'n perthnasoedd i annog mwy o ffocws ar lais a phrofiad y myfyrwyr, o fewn darparwyr unigol ac ar draws y sector. Bydd hyn yn cynnwys parhau i weithio gyda llywodraethau i gau bylchau yn y mynediad at ein gwasanaeth ein hunain i bob myfyriwr a allai elwa ohono, lleihau rhwystrau a gwella ymwybyddiaeth, gan gynnwys trwy foderneiddio digidol a pherthnasoedd allgymorth. Rydym yn bwriadu dechrau'r broses o ehangu ein gwasanaeth i fyfyrwyr trydyddol yng nghyd-destun Cymru.

Byddwn yn parhau i gyfrannu'n weithredol at Gymdeithas yr Ombwdsmon (OA) a Rhwydwaith Ewropeaidd Ombwdsmon mewn Addysg Uwch (ENOHE), gan rannu'r hyn a ddysgwn, meincnodi ein dull gweithredu, a sicrhau bod ein harfer yn parhau i fod yn gyson â safonau rhagoriaeth ledled y sector. Trwy'r rhwydweithiau hyn byddwn yn dod â mewnwelediad rhyngwladol a thraws-sector i'n gwaith ac yn rhannu ein profiad o weithredu o fewn tirwedd addysg uwch sy'n newid yn gyflym.

# Mae ein cynlluniau i barhau â chyflawni yn erbyn Blaenoriaeth 2 yn cynnwys:

| Beth rydym yn bwriadu ei wneud | Sut olwg fydd ar hyn |
|---|---|
| **Byddwn yn sefydlu perthnasoedd newydd, ac yn datblygu perthnasoedd sy'n bodoli eisoes, er mwyn cynnal a gwella ein gallu i ddylanwadu.** | • Ymwneud â datblygiadau gwleidyddol a pholisi mewn meysydd sy'n berthnasol i'n gwaith a chynnal perthnasoedd gwaith effeithiol â swyddogion a rhanddeiliaid.<br>• Gweithio gyda'r Swyddfa Myfyrwyr, Medr, yr Adran Addysg, Llywodraeth Cymru, rheoleiddwyr eraill a Chyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol (PSRB) fel bod gwybodaeth yn cael ei rhannu yn ôl yr angen, ac rydym yn cymryd rhan mewn trafodaethau perthnasol ynghylch blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg.<br>• Mynychu cyfarfodydd perthnasol ac ymwneud â thrafodaethau sy'n berthnasol i'n gwaith, gan gynnwys gyda'r Adran Addysg, Llywodraeth Cymru, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, Cyngor Ansawdd y DU, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.<br>• Gwella ein rhaglen allgymorth a'r adnoddau sydd ar gael ar ein gwefan ar gyfer darparwyr, cyrff cynrychioli myfyrwyr ac eraill. Rydym yn defnyddio adborth gan gyfranogwyr a'n hymgysylltiad ehangach ynghyd â mewnwelediad o'n gwaith ar achosion fel sail i'r pynciau rydym yn ymdrin â nhw a'r ffordd yr ydym yn eu cyflwyno. |
| **Byddwn yn parhau i ddyfnhau ein gwaith trwy brosiectau ar gyfer Darparwyr sydd â lefel Ymgysylltiad Isel ac Uchel.** | • Ymgysylltu â darparwyr sy'n gyfrifol am nifer uwch o gwynion at SDA i archwilio ffyrdd mwy effeithiol o nodi a rhannu dysgu o gwynion.<br>• Yn yr un modd, ymgysylltu â darparwyr sydd â lefel isel o ymwneud uniongyrchol â ni i sicrhau bod ein gwaith arfer da o fudd i'r aelodau hyn a'u myfyrwyr. |

| Beth rydym yn bwriadu ei wneud | Sut olwg fydd ar hyn |
|---|---|
| **Byddwn yn tynnu ar themâu sy'n datblygu mewn gwaith ar achosion, yn ogystal â thueddiadau ac enghreifftiau i amlygu materion a all wella profiadau myfyrwyr.** | • Cyhoeddi gwybodaeth am ein dull gweithredu a dysgu o'r cwynion a welwn, er enghraifft mewn nodiadau a chrynodebau o waith ar achosion. Rydym yn rhannu gwybodaeth o'n gwaith ar achosion gyda sefydliadau eraill sy'n gweithio ar feysydd blaenoriaeth ac yn arwain sgyrsiau lle gallwn ddefnyddio ein gwybodaeth unigryw er lles y cyhoedd yn ehangach.<br>• Cwblhau ein hymgynghoriad â myfyrwyr, cyrff cynrychioli myfyrwyr, darparwyr, a rhanddeiliaid perthnasol eraill a chyhoeddi'r adran newydd o'r Fframwaith Arfer Da: Ymdrin â chwynion am aflonyddu a chamymddwyn rhywiol.<br>• Nodi'r ystod lawn o ofynion data i alluogi dull newydd o gasglu a phrosesu systemau data ac offer adrodd.<br>• Datblygu "canllawiau porth" i ategu canllawiau gweithredol manwl ar gyfer cynulleidfaoedd eraill, fel myfyrwyr neu gyrff cynrychioli myfyrwyr. |
| **Byddwn yn ymgysylltu â darparwyr trydyddol a chyrff cynrychioli myfyrwyr yng Nghymru.** | • Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a Medr i gefnogi datblygiad parhaus system drydyddol integredig trwy baratoi SDA a darparwyr ar gyfer y symudiad tuag at sefyllfa lle byddwn yn adolygu cwynion gan fyfyrwyr addysg bellach yn annibynnol. |
| **Byddwn yn dechrau gweithio i ail-ddatblygu ein datganiadau blynyddol.** | • Ymgynghori â darparwyr, cyrff cynrychioli myfyrwyr, a rhanddeiliaid eraill ynghylch sut mae datganiadau blynyddol yn cael eu defnyddio ac i archwilio pa newidiadau fyddai'n hyrwyddo'r defnydd o ddata cwynion fel sbardun ar gyfer newid.<br>• Datblygu atebion technegol newydd. |

| Beth rydym yn bwriadu ei wneud | Sut olwg fydd ar hyn |
|---|---|
| **Byddwn yn sicrhau y gallwn gynnig safbwyntiau annibynnol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar faterion sydd o ddiddordeb i'r sector.** | • Cynnig persbectif unigryw, gan dynnu ar yr hyn a ddysgwn o adolygu cwynion, i ystod eang o feysydd polisi gan gynnwys y rhai sy'n cael eu datblygu a fydd yn cael effaith ar ein Cynllun.<br>• Parhau â'n gwaith sy'n canolbwyntio ar yr effaith ar fyfyrwyr unigol pan fo darparwyr yn cau, boed hynny'n gau cwrs neu gampws, neu pan fo'r sefydliad yn ymadael â'r farchnad. Bydd hyn yn helpu wrth ystyried deilliannau gwell i fyfyrwyr unigol lle bo'n bosibl, a bydd yn lliniaru'r risg y bydd SDA yn derbyn cwynion lle nad oes llawer o opsiwn o ran datrysiad. Bydd hyn yn cynnwys:<br>  ◦ Parhau i weithio i nodi a rhannu arferion effeithiol a fydd o gymorth i ddarparwyr yng Nghymru a Lloegr i lywio amgylchiadau ariannol heriol gyda ffocws penodol ar liniaru'r effaith ar fyfyrwyr.<br>  ◦ Cynnig ein harbenigedd a gweithio gyda'r llywodraethau ac eraill i ystyried atebion posibl i fyfyrwyr nad oes ganddynt efallai unrhyw ddatrysiad ar ôl i'w sefydliad adael y farchnad.<br>  ◦ Gweithio gyda darparwyr unigol a allai fod yn ystyried cau i sicrhau eu bod yn fodlon dysgu ac ymwneud â thasgluoedd aml-asiantaeth lle bo'n ddefnyddiol gwneud hynny.<br>  ◦ Ymgysylltu â chyrff cynrychioli myfyrwyr sy'n cefnogi grwpiau o fyfyrwyr yr effeithir arnynt gan gau cyrsiau neu sefydliadau. |
| **Byddwn yn pwysleisio manteision datrys problemau'n gynnar i fyfyrwyr a darparwyr.** | • Datblygu ystod o wybodaeth well sy'n hygyrch i fyfyrwyr a chyrff cynrychioli myfyrwyr.<br>• Parhau i ddatblygu ein cyngor a'n canllawiau gweithredol i rannu dulliau sydd wedi datrys cwynion yn gyflym ac i ddangos manteision datrysiad cynnar. |

## Blaenoriaeth 3:

# Gwella ansawdd ein tystiolaeth, yn ddata a mewnwelediad, i wella ein perfformiad sefydliadol ac effeithiolrwydd o ran dylanwadu.

Mae cyflawni gwaith achos effeithlon o ansawdd uchel a dylanwadu ar newid ar draws y sector yn dibynnu ar fynediad at ddata a gwybodaeth gywir, amserol a strwythuredig. Yn 2026, byddwn yn parhau i gryfhau sut rydym yn casglu, rheoli a defnyddio data fel ei fod yn ategu ein hamcanion strategol ac yn rhoi cipolwg ystyrlon ar y problemau y mae myfyrwyr a darparwyr yn eu hwynebu.

Byddwn yn canolbwyntio ar gasglu gwybodaeth sy'n wirioneddol werthfawr, mewn ffordd gyson, gydlynol a chymesur. Rydym yn parhau i fod yn ymwybodol o'r baich y mae casglu data yn ei roi ar ein sefydliad ein hunain ac yn enwedig ar y sector ehangach, a byddwn yn parhau i ddilyn egwyddor "casglu unwaith, defnyddio'n aml" lle bynnag y bo modd. Trwy gydol 2026, byddwn yn adeiladu ein gallu i adrodd a dadansoddi, yn gwella integreiddio systemau, ac yn parhau i archwilio technolegau sy'n dod i'r amlwg a all gynorthwyo â phrosesau mwy effeithlon a mewnwelediadau dyfnach.

Mae mynediad at wybodaeth gywir ac amserol am yr amgylchedd addysg uwch a thrydyddol yn hanfodol i weithrediad effeithiol y Cynllun. Mae gwybodaeth gyfoes am faint, strwythur a chyfansoddiad darparwyr o gymorth i bopeth, o weinyddu'r aelodaeth i asesu risg ac ymwneud â pholisi. Yn yr un modd, mae data am gorff y myfyrwyr yn ein galluogi i ddeall y cyd-destun y mae cwynion yn codi ynddo, nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, a sicrhau bod ein gwaith yn adlewyrchu amrywiaeth profiadau myfyrwyr.

# Mae ein cynlluniau i barhau â chyflawni yn erbyn Blaenoriaeth 3 yn cynnwys:

| Beth rydym yn bwriadu ei wneud | Sut olwg fydd ar hyn |
|---|---|
| **Byddwn yn parhau i gynyddu ein capasiti a'n galluoedd o ran dadansoddi data.** | • Adeiladu ar waith i wreiddio data o safon fel cyfrifoldeb a rennir ac ased a rennir ar draws y sefydliad. Mae hyn yn cynnwys:<br>  • Cofnodi data cywir ym mhob rhan o'r sefydliad.<br>  • Hyfforddiant ac adnoddau i gynorthwyo'r holl staff i fewnbynnu data ac i ddefnyddio offer adrodd, gan gynnwys cyfres newydd o ddangosfyrddau PowerBi.<br>  • Gwybodaeth gyfoes am offer ac arfer gorau o fewn rolau sy'n canolbwyntio ar ddata, gan gynnwys ymgysylltu â thechnoleg AI sy'n dod i'r amlwg.<br>  • Datblygu ein gallu o fewn y tîm Data a Mewnwelediadau. |
| **Byddwn yn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â gofynion rheoleiddio gwybodaeth.** | • Gweithio i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd yn y dadansoddiad o fylchau mewn cydymffurfiaeth â Diogelu Data ac i fodloni gofynion Deddf Defnyddio a Mynediad at Ddata 2025.<br>• Cadw golwg ar weithrediad Deddf Cystadleuaeth Marchnadoedd Digidol a Defnyddwyr 2024 a'i heffaith ar ein rôl fel corff datrys anghydfod amgen cymeradwy. |
| **Byddwn yn archwilio ffynonellau data allanol newydd i gynorthwyo â'n camau i normaleiddio ac archwilio ffynonellau data.** | • Datblygu data yn unol â setiau data HEIDI Plus at ddibenion cyd-destunoli. |
| **Byddwn yn adolygu ein harferion llywodraethiant data a rheoli cofnodion.** | • Creu prosiect annibynnol i adolygu meysydd o arferion sy'n bodoli eisoes a rhai sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys trwy ddull sefydliadol o ddefnyddio deallusrwydd artiffisial (AI).<br>• Gweithredu dull newydd o reoli dargadwedd staff. |

## Blaenoriaeth 4:

# Cynyddu effeithiolrwydd y sefydliad, adeiladu ar ein hymagwedd un-sefydliad a'i chryfhau, gan sicrhau y gallwn ymateb i ofynion y blaenoriaethau eraill, a chreu amgylchedd lle gall ein holl bobl ffynnu.

Mae ein strategaeth newydd yn nodi cyfnod o ddatblygiad bwriadol a systematig o'n harweinyddiaeth, ein diwylliant, ein pobl a'n systemau. Yn 2026, byddwn yn parhau i gryfhau'r gallu a'r capasiti sydd eu hangen arnom i gyflawni ein blaenoriaethau strategol yn effeithiol ac yn gynaliadwy.

Byddwn yn rhoi'r mecanweithiau sydd eu hangen ar waith i gydbwyso adnoddau a blaenoriaethu gweithgaredd, gan sicrhau y gallwn gyflawni'r newid sefydliadol angenrheidiol wrth ymateb i lefelau uchel o waith ar achosion a'r galw cysylltiedig. Bydd hyn yn cynnwys nodi ac ymdrin ag arferion sy'n creu aneffeithlonrwydd, cryfhau ein prosesau mewnol, a sicrhau bod gan ein pobl yr offer a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rolau'n effeithiol.

Un o flaenoriaethau allweddol 2026 fydd parhau i adeiladu diwylliant sefydliadol ac amgylchedd gwaith sy'n canolbwyntio ar ddysgu, datblygu a gwelliant parhaus. Byddwn yn rhoi pob cymorth i'n pobl ddatblygu eu sgiliau, eu hyder a'u gallu i arwain, ac yn meithrin gweithle lle mae arfer myfyriol, cydweithio ac arloesedd yn cael eu hannog a'u gwerthfawrogi.

# Mae ein cynlluniau i barhau â chyflawni yn erbyn Blaenoriaeth 4 yn cynnwys:

| Beth rydym yn bwriadu ei wneud | Sut olwg fydd ar hyn |
|---|---|
| **Byddwn yn datblygu ein rolau arweinyddiaeth a rheolaeth.** | • Adolygu ein hymagwedd at arweinyddiaeth a rheoli, yn ogystal â gweithredu cyfres o gymwyseddau ac ymddygiadau wedi'u diffinio'n glir ac yna cynnal hyfforddiant allanol pwrpasol ar gyfer arweinwyr a rheolwyr. |
| **Byddwn yn gweithredu mesurau a dangosyddion meincnod i gefnogi datblygiad parhaus.** | • Gweithredu ein Fframwaith Perfformiad sydd newydd ei ddyfeisio, a fydd yn archwilio data o waith ar achosion, adnoddau dynol, cyllid a chyfathrebu.<br>• Datblygu cyfres o ddangosfyrddau sy'n rhestru proffil sefydliadol a data cynllunio'r gweithlu.<br>• Gweithredu ein hymagwedd newydd at ymdrin â Rheoli Risg. |
| **Byddwn yn gweithio gyda'n pobl i hyrwyddo eu hymgysylltiad parhaus a sicrhau dulliau priodol ar gyfer llais gweithwyr.** | • Adeiladu ar y fewnwelediad o'r cytundeb cydnabyddiaeth gydag Undeb y GMB:<br>    • Cryfhau llais gweithwyr i hyrwyddo cyfathrebu ac ymgysylltiad dwyffordd ystyrlon.<br>    • Gweithio i ddatblygu systemau a fframwaith ar gyfer dysgu a datblygu, gan gynnwys trwy Raglen Datblygiad Personol newydd.<br>• Cyflwyno arolygon Pulse newydd i helpu â deall materion sy'n dod i'r amlwg ar draws y gweithlu.<br>• Alinio Pobl a Diwylliant yn agosach â phob tîm trwy fodel partneriaeth newydd, yn ogystal â chryfhau cynllunio a gwneud penderfyniadau ynglŷn â phobl sy'n seiliedig ar ddata. |
| **Byddwn yn gweithredu Strategaeth Gyfathrebu newydd.** | • Dyfeisio a lansio Strategaeth Gyfathrebu newydd yn seiliedig ar egwyddorion cyfathrebu sefydledig.<br>• Ymgorffori safonau hygyrchedd ac iaith syml ac uniongyrchol fel y ffordd y byddwn yn cyfleu negeseuon effeithiol.<br>• Mireinio ein dull o ymdrin â llais y myfyrwyr trwy gyflwyno mecanweithiau adborth newydd sy'n sicrhau bod negeseuon wedi'u teilwra ac yn effeithiol ar gyfer cynulleidfaoedd.<br>• Datblygu presenoldeb ar y we sy'n hygyrch ac wedi'i adnewyddu, yn ogystal ag archwilio cyfryngau cymdeithasol newydd. |

| Beth rydym yn bwriadu ei wneud | Sut olwg fydd ar hyn |
|---|---|
| **Byddwn yn gweithredu strategaeth newydd ar gyfer deallusrwydd artiffisial (AI) a thechnoleg.** | • Adolygu ac asesu dau faes gwahanol o'n gwaith, sydd â gwahanol broffiliau risg, â'r bwriad o weithredu deallusrwydd artiffisial i gynorthwyo prosesau gwaith ar achosion penodol, ochr-yn-ochr ag agweddau sefydliadol ehangach lle gellid gweithredu AI yn haws. |
| **Byddwn yn sicrhau bod ein hamgylchedd technegol yn parhau i gefnogi ein gweithrediadau.** | • Cyflwyno system docynnau newydd ar gyfer cymorth TG a fydd yn galluogi effeithiolrwydd tîm ehangach.<br>• Adolygu a gweithredu newidiadau i'n darpariaeth fewnrwyd bresennol ochr-yn-ochr â sicrhau'r safonau uchaf o lywodraethiant data. |
| **Byddwn yn gweithredu ein strwythur llywodraethiant newydd yn llawn, gan sicrhau parhad y safonau uchaf.** | • Parhau i recriwtio Ymddiriedolwyr/Cyfarwyddwyr i'r swyddi gwag ar ein Bwrdd yn dilyn cwblhau ein hadolygiad llywodraethiant, gan sicrhau bod safbwyntiau priodol yn cael eu casglu a chyda golwg ar annog y rhai sy'n newydd i rolau Anweithredol ochr-yn-ochr â Chyfarwyddwyr Anweithredol sefydledig.<br>• Cynnal ymarfer Effeithiolrwydd Llywodraethiant ar lefel Llywodraethiant Corfforaethol a sicrhau cyfranogiad aelodau ein Cwmni a rhanddeiliaid eraill.<br>• Parhau i weithredu arfer gorau, gan gynnwys trwy gydymffurfio â Chôd Llywodraethiant Da newydd y Comisiwn Elusennau.<br>• Datblygu porth ar gyfer y Bwrdd i sicrhau'r safonau uchaf o ddiogelwch data. |
| **Byddwn yn parhau i adolygu ein tanysgrifiadau i hyrwyddo cydbwysedd teg rhwng twf ac effeithlonrwydd.** | • Cadw ein cost fesul uned oddeutu £1,700.<br>• Parhau i adolygu'r cydbwysedd rhwng elfen graidd ac elfen achos tanysgrifiadau yng nghyd-destun yr amgylchiadau ariannol heriol mae darparwyr addysg uwch yn eu hwynebu. |
| **Byddwn yn cryfhau ein hymagwedd at amrywioldeb a chynhwysiant.** | • Yn dilyn adolygiad mewnol, gweithredu cynlluniau i wella ein hymagwedd ar draws ystod o arwyddion Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant (EDI), ar gyfer staff a defnyddwyr gwasanaeth.<br>• Cyflwyno strategaeth Gyfathrebu newydd a fydd yn cefnogi mesurau EDI, gan gynnwys hygyrchedd y Cynllun. |

swyddfa'r
dyfarnwr
annibynnol

# Cynllun Gweithredu
2026

**Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch**


OIA,
Blwch Post 3362,
Reading RG1 9UF

0118 959 9813
enquiries@oiahe.org.uk
oiahe.org.uk



Rhif Cofrestru'r Cwmni: 04823842
Rhif Cofrestru'r Elusen: 1141289